**PRIFFYRDD, CYMRU**

**2012 RHIF 17**

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

# GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (YR A55 TUA'R GORLLEWIN AR LAIN YMYL Y FFORDD YMUNO SY'N GYFAGOS I GAREJ THREEWAYS, FAENOL AVENUE, ABERGELE, CONWY) 2012

*Gwnaed* *19 Mawrth 2012*

*Yn dod i rym* *28 Mawrth 2012*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 **(1)** (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "Deddf 1990"), a phob pŵer galluogi arall **(2)**.

1. Yn y Gorchymyn hwn: -

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;

ystyr "y datblygwr" ("*the developer*") yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio y cyfeirir ato isod wedi ei roi iddo;

ystyr "y plan a adneuwyd" ("*the deposited plan*") yw'r plan o'r enw "Gorchymyn Cau Priffyrdd (Yr A55 tua'r Gorllewin ar Lain Ymyl y Ffordd Ymuno sy'n Gyfagos i Garej Threeways, Faenol Avenue, Abergele, Conwy) 2012" sydd gyda'r Gorchymyn hwn.

2. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 o'r Gorchymyn hwn, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn, ac a ddangosir â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd, a hwythau wedi eu bodloni ei bod yn angenrheidiol cau'r briffordd i alluogi'r datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 2 i gael ei wneud yn unol â chaniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran III o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 02 Ebrill 2007 o dan gyfeirnod 0/32979.

3. Ni chaniateir cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn hyd nes:

(a) y bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol Gweinidogion Cymru, blaniau sy'n dangos ym mha fodd y bwriedir cau'r rhan o briffordd;

(b) y bydd y datblygiad y cyfeirir ato yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn wedi ei ddechrau a bod y datblygwr wedi hysbysu Gweinidogion Cymru yn ysgrifenedig ei

bod yn angenrheidiol cau'r rhan o briffordd i ganiatáu i'r datblygiad fynd rhagddo; ac

(c) y bydd Gweinidogion Cymru wedi ysgrifennu at y datblygwr i gadarnhau bod darpariaethau (a) a (b) o'r erthygl hon wedi eu cyflawni.

4. Os yn union cyn cau'r rhan o briffordd yn unol â'r Gorchymyn hwn bydd unrhyw offer ymgymerwyr statudol neu ddarparwyr cyfathrebu cyhoeddus o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws, yna (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990), bydd gan yr ymgymerwyr neu'r darparwyr yr un hawliau o ran yr offer ag a oedd ganddynt cyn cau'r briffordd.

5. Yn dilyn cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 yn unol â'r Gorchymyn hwn, bydd gan Weinidogion Cymru yr un hawliau o ran draenio'r briffordd ag a oedd ganddynt cyn cau'r briffordd mewn perthynas â'r rhan honno o briffordd ynghyd â'r hawl i gael mynediad iddi ac i gyflawni gwaith arni wrth arfer eu swyddogaethau ar gyfer cynnal a chadw'r briffordd o dan Ddeddf Priffyrdd 1980 mewn perthynas â chefnffordd yr A55 neu mewn cysylltiad ag arfer y swyddogaethau hynny neu wneud gwaith sy'n codi o'u harfer.

6. Os na fydd y datblygiad y cyfeirir ato yn Atodlen 2 o'r Gorchymyn hwn wedi ei ddechrau o fewn y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan III o Ddeddf 1990 fel hyd y caniatâd cynllunio, neu os yw'r caniatâd yn cael ei ddirymu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn effeithiol pan ddaw'r caniatâd cynllunio i ben.

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn weithredol ar y dyddiad y caiff yr hysbysiad ei fod wedi ei wneud ei gyhoeddi gyntaf yn unol ag adran 252(10) o Ddeddf 1990. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cau Priffyrdd (Yr A55 tua'r Gorllewin ar Lain Ymyl y Ffordd Ymuno sy'n Gyfagos i Garej Threeways, Faenol Avenue, Abergele, Conwy) 2012.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 19 Mawrth 2012

**G R MORGAN**
Pennaeth Gwasanaethau Seilwaith Arbenigol
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1990 p.8.
**(2)** Yn rhinwedd O.S.1999/672, Erthygl 2 ac Atodlen 1, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## ATODLEN 1

**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

**Y disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w chau o dan y Gorchymyn hwn**

Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd, sy'n rhan o lain ymyl ffordd ymuno'r A55 tua’r gorllewin sy'n gyfagos i Garej Threeways, yn Faenol Avenue, Abergele, Conwy, y mae ei hyd uchaf yn mesur 122 o fetrau a'i lled uchaf yn 6 metr, gyda chyfanswm yr arwynebedd ar ei fwyaf yn 493 o fetrau sgwâr, a honno’n rhan a ddangosir â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd.

## ATODLEN 2

**Y Datblygiad Arfaethedig**

Gwaith arfaethedig i osod pibellau mewn ffos ac ail-leoli a chodi ffens derfyn ar ran o lain ymyl ffordd ymuno'r A55 tua’r gorllewin sy'n gyfagos i Threeways Garage Ltd yn Faenol Avenue, Abergele, Conwy.

## DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

**GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (YR A55 TUA'R GORLLEWIN AR LAIN YMYL Y FFORDD YMUNO SY'N GYFAGOS I GAREJ THREEWAYS, FAENOL AVENUE, ABERGELE, CONWY) 2012**

**HYSBYSIR DRWY HYN** fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn awdurdodi cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn.

Nid awdurdodir cau'r briffordd ond er mwyn galluogi'r datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r hysbysiad hwn i gael ei wneud. Bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn effeithiol os daw'r caniatâd cynllunio i ben neu os caiff ei ddirymu.

Yn ystod y 6 wythnos ar ôl 28 Mawrth 2012 gellir archwilio copïau o'r Gorchymyn a'r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn swyddfeydd Priffyrdd a Pheirianneg Sifil, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Depo Adnoddau Canolog, Ffordd Wern Ddu, Mochdre, Conwy LL5 5HA yn ystod oriau agor arferol neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod.

Os bydd unrhyw berson yn dymuno herio dilysrwydd y Gorchymyn, neu ddilysrwydd unrhyw Ddarpariaeth sydd ynddo, ar y sail:

a. nad yw o fewn pwerau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; neu

b. y rhagfarnwyd yn sylweddol yn erbyn ei fuddiannau gan fethiant i gydymffurfio ag unrhyw un neu rai o ofynion y Ddeddf,

caiff y person hwnnw, o fewn 6 wythnos i 28 Mawrth 2012, wneud cais i'r Uchel Lys am atal neu ddiddymu'r Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth a gynhwysir ynddo.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad yn www.cymru.gov.uk (detholer: 'Deddfwriaeth', 'Is-ddeddfwriaeth', 'Offerynnau Anstatudol', 'Trafnidiaeth, Cymru', 'Gorchmynion Cau TCPA', '2012').

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**ATODLEN 1**

**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

**Y disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w chau o dan y Gorchymyn hwn**

Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd sy'n rhan o lain ymyl ffordd ymuno'r A55 tua’r gorllewin sy'n gyfagos i Garej Threeways yn Faenol Avenue, Abergele, Conwy y mae ei hyd uchaf yn mesur 122 o fetrau a'i lled uchaf yn 6 metr, gyda chyfanswm yr arwynebedd ar ei fwyaf yn 493 o fetrau sgwâr ac a honno’n rhan a ddangosir â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd.

**ATODLEN 2**

**Y Datblygiad Arfaethedig**

Gwaith arfaethedig i osod pibellau mewn ffos ac ail-leoli a chodi ffens derfyn ar ran o lain ymyl ffordd ymuno'r A55 tua’r gorllewin sy'n gyfagos i Threeways Garage Ltd yn Faenol Avenue, Abergele, Conwy yn unol â chaniatâd cynllunio a roddwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy o dan Ran III o Ddeddf 1990, ar 02 Ebrill 2007 o dan gyfeirnod 0/32979.